

FE DDAW ETO HAUL AR FRYN




Mae'n deg dweud ein bod yn byw mewn cyfnod rhyfeddol ar hyn o bryd; y rhan fwyaf ohonom yn swatio yn ein cartrefi er mwyn osgoi dod i gyswllt â'r feirws corona. Eraill, yn weithwyr iechyd a gweithwyr allweddol, yn parhau i fynd i'w gwaith o ddydd i ddydd i sicrhau rhyw fath o normalrwydd yn ein cymdeithas. Cadwch yn ddiogel gyfeillion, bob un ohonoch. Codwch y ffôn o dro i dro hefyd i sicrhau bod eich anwyliaid a'ch ffrindiau a'ch cymdogion yn dygymod â'r sefyllfa ryfedd, neu'r unigrwydd fedr godi yn sgil yr 'ynysu'.

Fel y gwyyddoch erbyn hyn, ni fydd rhifyn print o *Llafar Bro* ym mis Ebrill. Mi oedd yn benderfyniad digon hawdd i'w wneud, er mwyn gwarchod ein gwirfoddolwyr a'n darllenwyr. Ffolineb fyddai parhau i ddsbarthu o siop i siop ac o ddrws i ddrws o dan yr amgylchiadau. Serch hynny, does dim gwadu ei bod yn benderfyniad anodd mewn ffordd arall: dyma'r tro cyntaf i ni fethu argraffu eich papur bro ers i'r rhifyn cyntaf ymddangos yn Hydref 1975!

Dyna pam ein bod, fel llawer o'r papurau bro eraill, yn parhau i gyhoeddi -yn ddigidol- nes bydd y perygl heibio. Roeddem yn teimlo y gallai papur cymunedol fod ar ei bwysicaf ar adegau fel hyn. Yn dod a rhywfaint o ddi-ddanwch i'n darllenwyr, ac efallai ychydig o newyddion da mewn cyfnod dyrys. Yn gwmpeini i nifer sydd ddim yn medru manteisio ar eu rhwydweithiau cyfeillion a theulu arferol, ac yn chwilio am ddihangfa fer mewn cerdd newydd neu hen hanes. Rhifyn byrrach na'r arfer ydi o, a hynny am nad oedd yn bosib i'n gohebwyr ddanfon y newyddion cymunedol, ac am na fedr y teipyddesau 'nol y deunydd arferol i'w deipio. Diolch i nawdd Elusen Freeman Evans, mi fedrwn gynnig y rhifyn yn rhad ac am ddim, ac rydym yn eich annog i dynnu sylw pawb -ym mhedwar ban y byd- ei fod ar gael! Erbyn heddiw, mae llawer iawn o bobol sydd heibio oed yr addewid, sy'n hyddysg iawn eu defnydd o gyfrifiaduron a'r we, ond rhaid cofio nad pawb sy'n medru. Byddai'n wych felly pe bai cymaint â phosib ohonoch yn ei brintio adra (neu'n argraffu tudalen neu ddwy) pe medrwyd, er mwyn rhannu efo teulu a chymdogion sydd ddim yn defnyddio'r dechnoleg.

Mae llawer ohonom yn gyfarwydd â'r dywedriad sydd yn y pennawd uchod, ond mae llai yn gwybod am ei darddiad. Dyma bennill hyfryd, sy'n berthnasol iawn i ni ym Mro Ffestiniog ar unrhyw adeg, ond mae'n arbennig o bwysig cofio ar hyn o bryd y gwelwn ddyddiau gwell cyn hir.

Er maint sydd yn dy gwmwl tew
o law a rhew a rhyndod;
Fe ddaw eto haul ar fryn,
nid ydyw hyn ond cawod.



Tra rhedo dŵr Dolrhedyn, daw dyddiau gwell i ganlyn. (LLUN GAN ALWYN JONES)

YSGOLORIAETH

..... PATAGONIA

¡Felicidades a llongyfarchiadau mawr i Hanna Williams, Bronaber, sy'n gweithio yn Ysgol y Manod, ar ennill Ysgoloriaeth Rawson Cyngor Tref Ffestiniog eleni. Cafwyd cyflwyniad yn siambr y cyngor ar ddechrau mis Mawrth i ddatgelu'r enillydd, a dilynwyd hynny gan gyfarfod i sefydlu cangen leol o Gymdeithas Cymru Ariannin.



Hanna a'r Cynghorydd Glyn Daniels.
LLUN GAN GYNGOR TREF FFESTINIOG

Gobeithir medru cynnal noson yn lleol i ddangos ffilm ddogfen enillydd 2019, Mark Wyn Evans, a gweithgareddau efo'r enillydd blaenorl hefyd gyda lwc.

Daeth newyddion calonogol yn ddiweddar o Drerawson eu bod nhwythau bellach yn gobeithio efelychu cynllun gwych Cyngor Stiniog, a chefnogi pobl ifanc o'r Wladfa i ddod drosodd i Fro Ffestiniog yn y dyfodol. Maen nhw'n siwr o gael croeso cynnes yma.



YN Y RHIFYN HWN

Cerddi newydd a hanes hen;
Iluoniau gwych i godi gwen.

DYDDIADAU PWYSIG

Dyddiad olaf derbyn deunydd rhifyn
Mai fydd dydd Gwener, Iaf o Fai

PWYLLGOR LLAFAR BRO

Gwylwch ein cyfryngau cymdeithasol am
fanylion, os bydd y sefyllfa wedi gwella.

Noddwyd y rhifyn
hwn gan

ELUSEN FREEMAN EVANS FFESTINIOG
swyddfa@elusenfreemanevans.cymru

SWYDDOGION

CADEIRYDD:

Paul Williams,

Neigwl, Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog

☎ 01766 830457 ebost: wiliams@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:

Shian Jones, 4 Ffordd Benar,

Blaenau Ffestiniog LL41 3UU

☎ 01766 830549 ebost: shian.jones@yahoo.com

IS-YSGRIFENNYDD:

Vivian Parry Williams, 7 Trem y Fron,

Blaenau Ffestiniog LL41 3DP ☎ 01766 831814

ebost: vivian.williams@btinternet.com

TRYSORYDD:

Sandra Lewis, Bryn Bela, Ffordd Barwn,

Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3UG

☎ 01766 831539 ebost: sandralewis62@icloud.com

TREFNYDD HYSBYSEBION:

Glyn Daniels, 66 Fron Fawr,

Blaenau Ffestiniog LL41 3YD ☎ 07731 605557

ebost: cynghorydd.glyndaniels@gwynedd.llyw.cymru

DOSBARTHWR:

Emyr Jones, Noddfa, Llan Ffestiniog LL41 4NN

☎ 01766 762582

IS-DDOSBARTHWR A

DOSBARTHWR DRWY'R POST:

Brian Rushworth a Maldwyn Williams

FFOTOGRAFFYDD

Allwyn Jones ☎ 01766 830291

TEIPYDDESAU

Heddu Williams, Glesryn, Glynllifon, Blaenau.

Eira Kirkman, 1 Bryn Gwynedd, Rhiwbryfdir

TAPIAU I'R DEILLION

Nan Rowlands, Y Glyn, Llan. ☎ 762492

Gweithredir gynllun Tapiau i'r Deillion yn

annibynol o *Llafar Bro*.

HYSBYSEBION

Prisiau hysbysebu yn *Llafar Bro* fel a ganlyn:

A	lled colofn x 4 cm	£7 y mis
B	lled colofn x 6 cm	£9 y mis
C	lled colofn x 9 cm	£10 y mis
CH	lled dwy golofn x 6cm	£15 y mis
D	chwarter tudalen	£21 y mis

Cynnwys ffurflen efo'r papur 800 – £40

EITEMAU HWYR

Bydd eitemau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

Sylwer os gwelwch yn dda ar ddyddiadau'r mis ar y dudalen flaen.

Nid yw Cymdeithas *Llafar Bro*, na'r golygydd o reidrydd yn cytuno â chynnwys yr erthyglau a'r deunydd a ddaw i mewn, ac ni allwn dderbyn cyfrifoldeb am y cynnwys.

MAE NEWID YN CHANGE MEDDAN NHW

Ac mae pob un ohonom yn sicr yn gweld newid byd go iawn ar hyn o bryd.

Er i ni fedru darparu rhifynnau ar ffurf pdf i danysgrifwyr cyn hyn, dyma'r rhifyn cyntaf sy'n cael ei gyhoeddi'n ddigidol yn unig.

Roedd rhywun yn darogan heddiw y cymer hi 6 mis cyfa' crwn i fywydau pawb ddychwelyd i'r drefn arferol ar ôl gofid covid 19. Ond tybed ydi hi'n ddoeth dychwelyd yn llwyr i'r hen drefn sy'n cael ei disgrifio gan rai fel bywyd materol, hunanol, a chyfalafol? Ai gwirion fyddai anwybyddu'r rhybudd clir yma mae'r ddaear wedi'i roi i ni, a dilyn yr un trywydd yn y dyfodol?

Dim ond un daear sydd gennym; 'Nid oes Planed B' fel dywed y slogan! Ond rydym wedi bod yn byw a gor-ddefnyddio adnoddau ein byd fel tae gennym ni ddau ddaear a hanner i'w sbario!

Calla dawo'r bregeth mae'n siwr gen i. Mae yna bobl yn galaru, ac eraill yn pryderu'n arw; mae hynny'n anochel. Feiddiwn ni, trwy hyn i gyd, holi os oes yna ymylon arian i'r cymylau duon o gwbl? Oes yna fanteision i'r hunan-ynysu? Wel, oes. Yn fy achos i, mae'n gyfle i dreulio amser efo'r teulu; chwarae gêm a sgwrsio wrth y tân; darllen ambell lyfr sydd wedi aros yn hir am sylw; ail-edrych yn gyffredinol ar be' sy'n bwysig mewn bywyd. Bu'r haul yn help garw wrth gwrs. Medru mynd i'r ardd a mwynhau gwyllo rhyfeddod y gwanwyn yn deffro. Gwenyn a glöynod byw ymysg y blodau cynnar; telor yr helyg a'r siff-saff yn ôl o'r Affrig; a pharatoi at hau ychydig o hadau eto.

Mae'r gymuned arbennig hon wedi tynnu at ei gilydd fel bob tro, i drefnu gwirfoddolwyr i nôl neges ar ran y rhai sydd ddim yn medru piciaid allan, ac i ofalu bod y banc bwyd yn parhau i roi cefnogaeth i'r rhai sydd fwy'n angen o.

Daeth grŵp *Gweplyfr/Facebook Côr-ona* yn llwyddiant ysgubol dros nos bron, a channoedd o ganeuon wedi eu gosod i godi calonnau 38 mil o wylwyr a dilynwyr! Mae nifer o'r cantorion yn rai lleol – ewch am sbec, ac mi fedrwrch ymgolli am oriau o fwynhad a chwerthin bob yn ail. Mae 'Cerddi Corona' yn grŵp difyr arall os ydi'n well gennych farddoniaeth.

Difyr oedd gweld y lluniau o Fenis yn dangos y dŵr yn loyw glir yn y camlesi yn'de. Ar ôl dim ond ychydig ddyddiau o gyfyngu symudiadau pobl a busnesau yng Nghymru, roedd Afon Bowydd i'w gweld yn glir fel grisial o waelod yr ardd acw. Welis i mohoni mor lân â hyn yn yr ugain mlynedd ers inni brynu'r tŷ. Ac efo'r hedfan masnachol bron a dod i ben yn llwyr, a llawer llai o geir ar ein ffyrdd, gallwch fentro bod yr aer yn lanach nag y bu, a llawer llai o garbon yn cael ei ryddhau i ddylanwadu ar ein hinsawdd. Hefyd, mae llawer yn gweld -o'r diwedd- be mae 'austerity' ac ideoleg gyfalafol gwleidyddion Prydain wedi'i wneud i'r gwasanaeth iechyd a'n gwasanaethau cyhoeddus eraill ni.

Rhesymau da dros *beidio* 'mynd nôl i normal' ar ôl i'r feirws ceroma fynd o'ma! Gawn ni weld os gymrwn ni'r cyfle...

Rhifyn yn llawn erthyglau sydd gennym y tro hwn. Mae nifer o'r colofnwyr rheolaidd wedi cyfrannu erthyglau fel bob tro, ac mae llawer o awduron gwadd wedi cyfrannu darnau difyr iawn hefyd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Gobeithio y cewch chi ryw gysur a mwynhad yn y darllen.

Yn y cyfamser gyfeillion, daliwch i gredu.

Paul

Annwyl Olygydd

Annwyl Olygydd

Gair o sylw am y cyfresi *Craith/Hidden*.

Edrychwn ymlaen i weld y penodau yn unig er mwyn gweld garej Williams Dentist yn Glanypwll. Yn y garej y treuliai 'Conna' ei amser yn cawio plu pysgota. Danghosid llun o'r garej racs o'r tu allan a deuai hynny a llu o atgofion am y 'cae dentist' tu cefn i'n tŷ ni 'Glanypwll Villa'.

Yn ein cyfnod ni mi roedd y garej yn adeilad twt ac mi roedd yn loes ei gweld mewn ffasiwn stad. Cafwyd cip ar 'tŷ pen (tŷ Gwynfor) a'r hen siop chips, trofa Glanypwll.

Eilbeth oedd y stori i mi- datblygiad araf iawn, stori greulon seicolegol, actio credadwy, ond oedd angen iaith mor hagr? Ar gyfresi Saesneg tebyg e.e. 'Vera' does dim defnydd o iaith ffaidd i greu effeithiau. Pam y dylem eu derbyn mewn cyflwyniadau Cymraeg?

Cofion,
Nia Williams

Annwyl Olygydd,

Ysgrifennaf atoch i ddweud fy modi wedi anfon ebost at Heno yn ddiweddar, i adael iddyn nhw wybod bod rhaglenni S4C yn gysur mawr i fi a fy nheulu yn enwedig yn ystod argyfwng y Coronavirus erchyll yma dan yn ei wynebu ar hyn o bryd. Ar rhan holl ddarllenwyr *Llafar Bro* cofiwch gadw yn saff yn ystod yn y cyfnod anodd yma.

Yr Eiddoch yn Gywir

Rhian Jones



LLUNIAU A GDPR

Ewch i'n gwefan i weld manylion gyrru lluniau atom, a sut mae *Llafar Bro* yn ymdrin â data personol – Diolch

Ein Byd a'n Milltir Sgwar

Pan fu'r newyddion gyrraedd am yr effaith bydd Covid-19 yn gallu golygu ar ein bywydau, anodd oedd coelio hynny: efallai mewn gwlad fel Tseina neu Iran, ond dim Cymru fach ac ardal Stiniog... Ond, erbyn heddiw, mae pob un wan jac o fewn cymdeithas wedi ei effeithio gan y diafol anweledig yma sydd wedi ei ryddhau ar hyd y blaned. Pawb.

Dros y misoedd diwethaf, mae'r Dref Werdd wedi bod yn mynd o nerth i nerth gyda'r holl brosiectau rydan wedi bod yn datblygu. Y gwaith amgylcheddol wedi byrlymu ymlaen dan ofal Megan a'i chriw o wirfoddolwyr gweithgar; y siop galw-mewn ar fin datblygu mewn gofod newydd i gyd-fynd efo brwdfrydedd diflino Mei a Rhian i helpu aelodau'r gymuned; Calvin yn gwneud cynnydd mawr gyda'n prosiect entrepreneuriaeth gymunedol; a'r Dref Werdd hyd yn oed yn chwilio am rywun i reoli ein siop ddiwastraff. Mae pethau wedi bod yn edrych yn gyffrous dros ben. Yna, daeth y feirws a newid popeth! O bosib newid popeth am sut bydd ein byd yn edrych wedi iddo ddiffannu mewn misoedd i ddod.

Yn sydyn reit, aeth ein blaenoriaethau ni o fewn y Dref Werdd o fod yn datblygu prosiectau a datblygu'r ardal, i gefnogi pobl fregus hyd yn oed fwy, dros nos.

Wrth wyllo crafangau'r coronafeirws yn ymledu ar hyd pob cyfandir ar y newyddion, roedd pethau wedi cyrraedd pwynt argyfwng, hyd yn oed yma, yng Ngwynedd! Yn sydyn reit, roedd y banc bwyd dan bwysau eithriadol i ddarparu pecynnau bwyd i bobl anghenus, roedd yr archfarchnadoedd yn cael eu gwagio o fwydydd, ac yna'r gorchymyn i gau pob caffi, tafarn a bwyty. Ac o'r diwedd, yr ysgolion a cholegau, er mwyn ceisio rhwystro'r afiechyd rhag gwasgaru ei hun ymhellach. Roedd hyd yn oed pencampwriaeth y chwe gwlad a'r cynghrair pêl droed a'r holl chwaraeon eraill yn gorfod dod i ben; roedd pethau wedi troi yn *real* go iawn. Aeth ein bywyd dyddiol gyda'r Dref Werdd o fod yn plannu coed yn yr haul a'r mwd, i ddreifio o gwmpas yn casglu bwydydd gwahanol o lefydd fel caffi Llechwedd a gwesty Bryn Tyrch yng Nghapel Curig fel rhoddion i'r banc bwyd gan fod rhaid iddynt gau. Mynd i wneud siop fawr ar ran y banc bwyd yn archfarchnadoedd Porthmadog a dygymod â phobl yn edrych arnoch fel tase'r holl fwyd yn y troli i chi eich hun, ac yna nôl i Blaenau i helpu Rhian a'i gwirfoddolwyr i drefnu a dosbarthu'r cwbl. Profiad ofnus ac ansicr. Yna, dros nos, roedd rhaid i mi gychwyn fy nghyfnod o hunan ynysu am bod aelod o'r tŷ yn dangos symptomau'r feirws haerllug ma'.

Wrth i mi drïo fy ngorau bod adref yn jynglo plant a gwaith, fel sawl un ar hyd y wlad, a ddim yn cael mynd i'r siop, i weld mam neu i redeg i fyny fy hoff fynyddoedd, neu fod yng nghanol y gwaith gwych sydd yn cael ei wneud gan y criw yn y Blaenau sydd dal yn 'gallu' cyrraedd eu gwaith, gyda phob un o'r unigolion yma wedi gollwng eu tŵls arferol a gafael mewn awenau newydd i helpu eu cymuned ac yn gwneud hynny yn hollol ddiffino. I mi, tystiolaeth arall o gryfder cymuned Bro Ffestiniog ac yn arf wych i frwydro nôl yn erbyn Covid-19. Er ei fod yn ddyddiau cynnar gyda'r pandemig 'ma', dwi'n falch iawn o gael bod yn ddarn bach iawn o'r gymuned arbennig yma, gyda'i pharodrwydd i helpu eraill, dim ots beth yw eu cefndir.

Cyn belled bod pob un ohonom yn gwrando a dilyn y cyfarwyddyd i aros adref a dim ond mentro allan os oes wir angen, gyda lwc, gallwn osgoi'r golygfeydd digalon a welwyd mewn gwledydd eraill ac hefyd osgoi rhoi mwy o bwysau aruthrol sydd yn barod ar y Bwrdd Iechyd a'r gweithwyr allweddol ledled y wlad.

I mi, wrth feddwl 'pam fod hyn yn digwydd?' dwi methu peido meddwl am theori dywedodd ffrind wrthyf ar gychwyn y holl brofiad erchyll yma:

Ai'r Fam Natur sy'n gyfrifol am y pandemig yma ledled y byd, gyda'r holl niwed mae dyn wedi, ac yn parhau, ei wneud i'r blaned werthfawr rydan ni i gyd yn byw arno? Yn ôl y son, ers i Covid-19 gychwyn yn Tsieina, mae lefelau allyriadau'r byd wedi gwella yn sgil llai o awyrennau yn yr awyr ayyb. Ai ffordd natur yw hyn i'r blaned gael gorffwys a chryfhau? Ai ffordd natur o roi'r cyfle i ni i wella ein ffyrdd o fyw yw hyn?

Pwy a wŷr?

Byddwch yn saff ac iach pob un ohonoch, ac edrychwch ar ôl eich gilydd da chi.

Daw eto haul ar fryn.

Gwydion ap Wynn

Darlun Mynyddoedd

Un o drysorau silffoedd llyfrau'n tŷ ni ydi '*Hanes Plwyf Ffestiniog o'r Cyfnod Boreuaf*' gan G.J.Williams, yn enwedig am bod y mapiau atodol gennym ni hefyd. Mae'r rhain yn brin fel lili'r Wyddfa, ac yn eu mysg mae darlun mynyddoedd y plwyf, fel gwelwch chi yn y llun yma. Mae'n copi ni braidd yn doredig yn anffodus, ond yn waeth na hynny, mae un cornel - ardal Yr Allt Fawr, Nyth y Gigfran, Iwerddon, ac ati, ar goll! Tybed oes rhywun o ddarllenwyr *Llafar Bro* yn berchen ar gopi cyflawn, sy'n fodlon sganio'r gornel hwnnw a'i e-bostio ataf? Mi fyddwn yn ddiolchgar iawn am eich cymwynas.

Paul

wiliam@btinternet.com



#CodiLlais am Covid

Yn llofft y plant ydw i heddiw, yn yr atig, wrth y ddesg yn ceisio dal i fyny hefo ychydig o waith 'go iawn' neu 'normal' yn hytrach na'r paratoi ac ymateb teuluol a chymunedol, calonogol yma sydd wedi llenwi ein hamser ers rhai dyddiau erbyn hyn. Heddiw does dim posib dianc effaith y firws corona - neu covid-19. Mae ein teulu bach yn hunain ynysu ers ddoe hefo symptomau o dagu ysgafn a dolur gwddw. Yn arferol byswn i wedi mynd i'r gwaith, a'r plant i'r ysgol heb feddwl dwywaith. Mae'n rhaid cyfaddef dwi yn teimlo ychydig yn hurt yn cymryd y fath ragofalon hefo mymryn o dagu ond nid amseroedd arferol ydi'r rhain, a gall neb fod yn or-ofalus.

Mae'n gwestiwn gen i beth fydd hoel y cyfnod sydd i ddod arnom ni oll? Beth fydd ffurf y cof fydd yn cael ei drosglwyddo ymlaen i'r genhedlaeth nesaf? A'i blin a chasineb gwyllt y cyfryngau cymdeithasol fydd eu hetifeddiaeth neu oes modd i ni sicrhau fod straen ein profiadau ar gael i greu darlun gwir o bwy oedd yn troedio'r tir yma pan fu i covid-19 newid ein cymdeithas am byth?

Wrth gwrs 'oes' ydi'r ateb. Oes, os oes isio gallwn gymryd rheolaeth. Gallwn gyfyngu ar allu pobl i fod yn filain, i ledaenu casineb cul a ffaidd. Gallwn gau lawr pob ffrwd, pob hanes, pob naratif niweidiol. Fydd dim modd i ni glywed y lleisiau ffrwydroled wedyn - ond mi fyddent yn dal i fod yn bydd? Mae profiadau personol yn bethau lliwgar, pan fo pobl yn teimlo dan fygythiad maent yn ymateb yn lliwgar. Dw'n i ddim os mai iach ydi atal mynegiant o boen, rhwystredigaeth, ofn a galar. Felly beth i'w wneud?

Mae'n boen meddwl i mi hefyd fod dim digon o brofion ar led ar gyfer y firws. Er fod pob un o'r teulu yn hunain ynysu am 14 diwrnod (14 diwrnod hir iawn debyg hefo 3 o rai bach yn ysu i ddenig), fydd dim modd gwybod os mai anwyd neu covid-19 sydd wedi ymgartrefu yma. Ella awn allan i'r byd dim ond i ail ddechrau'r broses o ddal 'salwch', hunain ynysu heb sicrwydd ein bod wedi atal 'rhen covid neu dim ond ei ohirio am fymryn yn hwy. A pwy fydd i ddweud beth oedd y baich ar ein cymunedau heb ddata swyddogol ar gael i gefnogi cof a hanes pobl dan eu sang?

A dyma lle daw cynllun i law.

Os allwn hel hanesion, cofnodi profiadau gallwn rymuso ein dyfodol - 'Dyma ddigwyddodd i ni a does dim modd i neb wrth-ddweud hynny'. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn helpu ni yma. Rydym wedi mabwysiadu hashnod #CodiLlais_VoiceUP. Boed yn fideo, yn flog, yn lythyr, yn record o lais yn adrodd hanes heddiw neu ddoe, bydd ei rannu gyda'r hashnod uchod yn galluogi ni i'w hel i gyd a'u diogelu ar gyfer ein dyfodol. Helpwch ni drwy wneud hyn hefyd. Cofiwch nodi enw, ardal a dyddiad. Byddwch yn ofalus o hawliau eraill bob tro. Cawn gymryd rheolaeth o'r naratif drwy fwydo'r naratif. Dim ond ni all ddweud ein hanes ein hunain, efallai na fydd yn hanes hapus bob tro, efallai na fydd yn enghraifft bositif wastad, ond mi fydd bob tro yn bwysig.

Elin Hywel

CWRDD



Mae'r lle 'ma'n rhy llwyd,
medda nhw.
Rhy wlyb, rhy lawiog,
rhy ddiiflas o lwyd o hyd.

Does dim yma i'w wneud,
medda nhw.
Mor llaith, mor lleidiog,
does unman mwy llwm yn y byd.

Cwrdd â fi ar y copa,
meddaist ti,
ar y darn o dir uwchben y cwmwl,
a gwyliwn y gola'n
chwarae mig efo'r niwl.

Cawn gadw oedfa,
meddaist ti,
gyda'r gwynt yn codi canu
hen emyn o'n cwmpas
wrth i ni gusanu.

Ac yma ar ben ein mynydd
mae'r llwyd yn troi'n lliwgar,
ond dim i ni.

Ac yma yng nharddiad ein hafonydd
mae'r llwm yn troi'n llachar,
ond dim i ni.

Fe sgwennais i'r gerdd hon yn wreiddiol ar gyfer oriel gelf Lisa Eurgain Taylor yn Oriol Môn mis Mawrth. Mae gwaith celf Lisa yn hynod o hardd, ac yn darlunio mynyddoedd Eryri mewn ffordd lliwgar a thrawiadol, ac mae hi'n gwneud i'r tirwedd edrych bron yn arallfydol o dlws. Cyrhaeddodd cais Lisa am gerdd ata i ar yr un pryd a darllenais nifer o sylwadau am Blaenau ar *TripAdvisor* oedd yn galw'r dref yn llwyd, yn llwm ac yn ddiiflas. Wel, dwi'n gwybod yn iawn bod y llechi yn llwyd wrth gwrs, ond dwi erioed wedi meddwl am ardal Stiniog fel lle llwyd, llwm na diflas yn wir! Pan edrych i ar y mynyddoedd o gerrig o'n cwmpas, dwi'n eu gweld nhw fel tomenni hudol, sy'n newid bob dydd yn dibynnu ar y tywydd a'r golau.

Dyma fynd ati felly i gyfansoddi cerdd oedd yn gwrthgyferbynnu beth mae rhai twristiaid yn ei weld, a be dwi'n ei weld wrth edrych ar ein llechi. Dwi'n gweld ein hanes a'n dyfodol. Dwi'n gweld dyddiau braf o haf fy mhlethentod a nosweithiau hwyr yn y Tap. Dwi'n gweld hen straeon y Mabinogi a gossip am bobl drws nesaf. Dwi'n gweld cerddi Gwyn Thomas a lyrics Anweledig. Dwi'n gweld fy nheulu, fy ffrindiau, a rhai gelynion! Yn fras, dwi'n gweld lot mwy na llechi.

Felly tro nesa mae rhywun yn dweud wrthyhych chi fod Stiniog yn le llwyd, dywedwch wrthyn nhw mae nhw sy'n llwyd wir, am beidio gallu gweld yr hyd a'r lledrith sy'n bodoli ym mhob cornel o'n ardal ni!

Llio Elain Maddocks

(Mae Llio yn postio cerddi'n rheolaidd ar ei chyfiri' Instagram @lloielain ac wedi dechrau cyfres am hunan-ynysu. Ewch am sbec i weld ei gwaith. Gol)

Erin a Llion a'u partneriaid, Rich a Sam, ar gopa'r Moelwyn Mawr



Y GADWYN DROM AR BRIDD TRAMOR

Collodd fy nain ei brawd ym Mrwydr Passchendaele yn Ieper, neu Ypres, Gwlad Belg, ac am flynyddoedd dywedais wrthyf fy hun bod yn rhaid i mi fynd yno un diwrnod i dalu parch. Felly archebais i fynd ym mis Mehefin 2019. Ym mis Mai y flwyddyn honno cefais y fraint o gael fy ethol i swydd cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog, felly penderfynais y byddwn yn mynd â'r gadwyn swyddogol gyda mi i dalu teyrnged i'r holl ddynion ifanc o Gymru a gollodd eu bywydau yno.

Teimplais mor falch gan mai dyma'r tro cyntaf i gadwyn swyddogol Cadeirydd Cyngor Tref Ffestiniog ymweld ag unrhyw wlad dramor, heblaw am Sir Fôn efallai!?

Braint mawr oedd cael ymweld â bedd Hedd Wyn ym mynwent Coed Magnelau, Ypres, a beddi fy ewythr, a thaid Geraint Vaughan Jones, tra oeddwn yn yr ardal hefyd. Heddwch. *Glyn Daniels*



FREEMAN EVANS

Mae elusen leol yn falch o roi cyfraniad ariannol i alluogi *Llafar Bro* i gyhoeddi'r rhifyn digidol yma. Gwyddwn mor werthfawr ydi'r papur i lawer iawn o drigolion yr ardal.

Mae Elusen Dydd Gŵyl Dewi Freeman Evans Ffestiniog, a sefydlwyd gan ewyllys Robert Freeman Evans (1988), yn 'rhoi cymorth i'r henoed anghenus, tlodion, a phobl anabl a dioddefwyr salwch tymor hir ym Mlaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog' yn ogystal ag i gymdeithasau a chlybiau lleol sy'n cyfrannu at lesiant cymuned Ffestiniog ac at amcanion yr ewyllys.

Ymysg y cymdeithasau sydd wedi cael nawdd yn y flwyddyn/ddwy ddwaetha' mae Clwb Rygbi Bro Ffestiniog; Clwb Pêl-droed yr Amaturiaid; a Chlwb Beicio Ieuenctid Antur Stiniog, sydd i gyd yn cyfrannu at iechyd trigolion ac at falchder cymunedol; a'r Ganolfan Gymdeithasol sy'n gartref i ganolfan ddydd yr henoed ac amryw o weithgareddau cymunedol eraill. Cefnogwyd cynlluniau amrywiol i wella systemau gwresogi a thoiledau, darparu hyfforddiant, prynu offer, a gwella cyfleusterau defnyddwyr.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn y gwanwyn ac yn yr hydref bob blwyddyn i ystyried ceisiadau. Er bod dyddiad cau gwanwyn eleni wedi bod bellach, bydd croeso i chi holi am ffurflen gais yn hwyrach yn y flwyddyn ar gyfer ffenest yr hydref, trwy yrru epost i swyddfa@elusenfreemanevans.cymru neu holi am ffurflen yn swyddfa'r Cyngor Tref. Yn y cyfamser, yn sgîl argyfwng y feirws corona, rydym mewn trafodaeth efo'r banc bwyd ynglŷn â sut y medrwn eu cynorthwyo, ac hefyd yn ystyried sut allwn ddsbarthu talebau ar gyfer prynu cynnyrch hanfodol yn y siopau bwyd a'r fferyllfeydd lleol.

Sylwer os gwelwch yn dda, na fydd unrhyw un o'r ymddiriedolwyr yn rhannu nac yn derbyn ffurflenni cais, ac ni ddylid cysylltu â nhw'n uniongyrchol. Rhaid gyrru ffurflenni yn ôl, unai trwy epost, neu at Freeman Evans, Blwch Post 73, Blaenau Ffestiniog, LL41 9AL. Diolch yn fawr.

“A fo ben, bid bont”: Cymru, Annibyniaeth a COVID-19

Diddorol yw edrych ar y dyfyniad hwn o'r Mabinogi wrth ystyried ei fod yn berthnasol iawn i ni heddiw. Mae'n gofyn i'r arweinydd, neu'r darpar arweinydd, i ymddwyn fel pont ac i gadw pethau at ei gilydd drwy warchod eraill. Gallwn ddadlau heddiw bod y rôl o fod yn arweinydd wedi'i cael ei rannu i bob un ohonom gan fod yn rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i lunio'r dyfodol. Boed hynny drwy aros adref ac ymhellau cymdeithasol i daclo covid-19 neu boed hynny drwy weithio gyda'n gilydd er annibyniaeth Cymru. Wrth i'r dyddiau fynd yn eu blaenau, mae'n bwysicach ac yn bwysicach ein bod ni'n cyd-weithio gyda'n gilydd er lles y mwyafrif, er lles y Fro ac er lles Cymru.

Wrth edrych ar argyfwng covid-19, gwelwn bod Cymru wedi cael ei neilltuo i'r ochr gan Lywodraeth Cymru a gan San Steffan. Mae'r diffyg gwybodaeth a'r data yn frawychus. Caiff yr Alban ddiweddariadau swyddogol am sefylla'r feirws gan Lywodraeth yr Alban tra bod Cymru yn cael diweddariadau gan fachgen ifanc, Lloyd Warburton, ar y cyfryngau cymdeithasol. Fel cenedl dylem fod yn eithriadol o ddiolchgar i Lloyd am wneud hyn. Ond, mae'n rhaid gofyn paham nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn? Dylai fod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gyfathrebu'n glir gyda'i phoblogaeth. Yn ddiweddar mae'r BBC wedi penderfynu peidio cynnwys bwletin newyddion brecwast gan BBC Wales ar BBC1. Gwelwn bod llai a llai o sylw yn cael ei roi i Gymru ar y cyfryngau. O ganlyniad, mae diffyg gwybodaeth am y sefyllfa yng Nghymru.

Nid yn unig yr ydym yn gweld diffyg darlledu ar y cyfryngau, rydym hefyd yn gweld cam-wybodaeth. Mae'n rhaid deall mai Chris Whitty yw Prif Swyddog Meddygol Lloegr ac NID Prif Swyddog Meddygol Cymru a'r Alban. Yn ogystal â bod yn Brif Swyddog Meddygol Lloegr mae ef hefyd yn Brif Gyngorydd Meddygol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Dylai bod hyn yn cael

ei bwysleisio yn y cyfryngau. Prif Swyddog Meddygol Cymru yw Frank Atherton. Tydy datganiadau sy'n cael eu gwneud yn *Lloegr* ddim o reidrwydd yn golygu y bydd yr un peth yn digwydd yng Nghymru gan bod Iechyd wedi cael ei ddatganoli. Felly, mae'n raid i'r cyfryngau egluro hyn. Rhaid cofio bod pedair cenedl o fewn y Deyrnas Gyfunol.

Mae argyfwng fel covid-19 wedi amlygu'r angen i nid yn unig datganoli darlledu, ond hefyd i frwydro am annibyniaeth yn fy marn i. Byddai annibyniaeth yn caniatáu i ni gasglu gwybodaeth mwy manwl am ein gwlad ac felly'n ein caniatáu i fod yn fwy gwybodus am yr hyn sy'n digwydd. O ganlyniad, byddai modd cynnal ymchiliadau sy'n canolbwyntio ar Gymru yn unig. Byddai'n orfodol i'n llywodraeth i rannu gwybodaeth gyda ni, dinasyddion Cymru. Hefyd wrth gael annibyniaeth, byddai modd cynnyddu'r cyllid ar gyfer sianeli Cymraeg a fyddai yn gosod safon parhaus a chreu mwy o raglenni. O ganlyniad, ffynhonnell cadarn i rannu gwybodaeth angenrheidiol i'r dinasyddion. Mae'n bwysig ein bod yn cael mynediad agored i wybodaeth yn ystod cyfnod fel hyn.

Y dyddiau hyn, mae'n raid i ni gyd fod yn arweinwyr mewn ryw ffordd gan fod yn rhaid i ni gyd gymryd cyfrifoldeb. Gyda'n gilydd, gallwn lwyddo. Gyda'n gilydd, gallwn daclo unrhyw beth. Boed hynny yn ennill annibyniaeth dros Gymru neu'n taclo'r covid-19. Gyda'n gilydd mi wnawn ni lwyddo. Gyda'n gilydd, mi ddaw haul ar fryn.

Elin Roberts



Menter Cyfieithu'r Blaenau

Yn ei gais ataf am ysgrif i'ch diddanu, cyfeiriodd Paul at y dyddiau dedwydd a fu, yn 2003/5, pan fu'n aelod o ddsbarth dysgu cyfieithu Saesneg/Cymraeg y byddwn i ac Ann, fy ngwraig, yn ei gynnal yn Ysgol Maenfferam (a rhoi'r enw cywir ar yr ardal!). Atgoffodd Paul fi o'm sylwadau (craff a dysgedig, wrth gwrs!) ar idiomau difyr a lliwgar 'Stiniog.

Cyn dod at y rheiny, dyma gyfle imi drafod hanes y dosbarth - ymgais llwyr anghofiedig i hybu rhywbeth yn yr hen dre. O ble daeth y syniad? Yn 2002 aethwn i ac Ann i bentref Meifod yn Sir Drefaldwyn, i ymweld â Meta, asiantaeth gyfieithu dwy bartneres ifanc. Er eu bod yn bell o bob man, yr oeddynt yn ei gwneud hi'n dda, ac yn medru gosod gwaith allan i ryw *ddwsin* a mwy o bobl yn yr ardal, gan gywiro eu gwaith a thalu rhan o'r tâl iddynt.

Taniwyd fi gan y syniad: pam na ellid gwneud hyn yn 'Stiniog'? Rhaid ein bod wedi gwneud apêl trwy *Lafar Bro*: yn nechrau 2003 cawsom ddyrnaid o rai awyddus yn hen festri Capel Maenofferen gynt, ac yno y buom yn cynnal dosbarth am ychydig nes i Gymdeithas Addysg y Gweithwyr glywed amdanom, a chamu i'r bwlch, gan gynnig talu inni gynnal dosbarth mewn ystafelloedd yn y Llyfrgell. Yn ogystal â dysgu medrau cyfieithu, rhoddwyd cyngor ar fedrau busnes megis cyfrifiadura, cadw cyfrifon ac ysgrifennu C.V. Cafwyd ambell ddarlithydd arall ar bynciau arbennig. Buom wrthi am ryw ddwy flynedd hanner.

Deallwch hyn: nid cychwyn ein busnes ein hunain fu ein bwriad. Yr amcan fu hyfforddi ac annog digon o rai awyddus a deallus i ymuno â Chymdeithas y Cyfieithwyr, sefyll ei harholiadau, ac ennill cymhwyster. Petai rhai ohonynt yn llwyddo, ac yn ennill swydd i gael profiad, gallent ffurfio asiantaeth, pes dymument, gan osod gwaith i eraill yn yr ardal. Cofiaf un o'r dosbarth yn tybio y byddai'n rhaid rhentu swyddfa yn y Stryd Fawr, a'i llenwi â theipyddesau, cypyrddau ffeiliau a chyfrifiaduron anferth, drudfawr. Nid felly y bydd y rhan fwyaf ohonom ni gyfieithwyr yn gweithio. Gartref, yn y llofft sbâr, gyda chyfrifiadur, teleffon a phentwr o eiriaduron, y gweithiwn. Nid mewn swyddfa yn unrhyw stryd y bydd cwsmer yn chwilio am gyfieithydd.

Câi Ann a minnau gryn waith cyfieithu a chyda chydysyniad y



cwsmer, byddem yn rhannu'r gwaith rhwng rhai o aelodau'r dosbarth, ei adolygu pe byddai rhaid, a thalu cyfran hael o'r tâl iddynt: câi pawb felly brofiad go iawn o waith cyfieithu, a thâl amdano. Deuai llawer oherwydd awydd gloywi eu Cymraeg yn unig, a llawer - 'dwi'n amau - er mwyn y gwmniaeth - gallai'r wers fod yn reit ddifyr. Deuai nifer o bell iawn - o'r Bermo, o Gwmystradllyn, o'r Bontnewydd, o Lanbedrog, o Landrillo yn Rhos, o Fangor ac o Fethesda. Yn wir, nid pobl 'Stiniog oedd y mwyafrif. Aeth dyrnaid ymlaen i yrfa cyfieithydd proffesiynol, ond ni wireddwyd ein gobaith ar gyfer yr hen dre. Hyd y cofiaf, ni fu sôn amdanom yn *Llafar Bro*, a phan ddaeth adeg pan fu rhyw fath o orsaf radio yn yr hen Goparét yn lleadaenu tipyn o hanes a newyddion yr ardal, ni chlywais i'r un smic am ein hymdrech. Chwith fu rhoi terfyn ar y dosbarth a ffarwelio â'n cyfeillion hoffus, ond a minnau bellach ar fy mhensiwn, dechreuodd y wers fynd yn drech na mi. Cawn £26 y wers ddwyawr, ond ni chynhwysai hynny bris petrol y daith o Fangor i'r Blaenau ac yn ôl, ac ni chawn osod cost teithio yn erbyn treth ar f'incwm. Ni châi Ann yr un geiniog. Golygai pob gwers ddiwrnod o gywiro gwaith dosbarth go fawr a pharatoi deunydd newydd, heb sôn am weinyddu a chywiro gwaith masnachol. Hefyd, aeth gofynion gweinyddol y WEA yn fwyfwy cymhleth.

Tua'r diwedd, daeth Stiniogyn gweddol amlwg atom gyda chynllun i hybu peth tebyg i'n bwriad ni. Golygai rentu neu brynu adeilad gyda swyddfa ac ystafell wersi, a chyflogi hyfforddwr proffesiynol llawn amser. Cawsai'r cynllun, meddai, gefnogaeth nifer o gyrff yn yr ardal - cymdeithasau, clybiau, capeli ac ysgolion. Nid oedd yr un corff yn addo cyfrannu i'r gost, ac ni ddywedai'r un ba faint o waith cyfieithu y gellid ei ddisgwyl ganddo. Pan holais o ba le y deuai'r deunaw neu ugain mil o bunnoedd o gyflog i'r hyfforddwr, yr ateb fu y disgwyliad iddo ei ennill trwy wneud gwaith cyfieithu masnachol! Ni chlywswn y fath hurtrwydd erstalwm. A dyna ei diwedd hi. Ond dyma fymryn o gysur: mae asiantaeth Meta, ym Meifod, yn dal yn llewyrchus iawn yn ôl pob sôn.

Bruce Griffiths, 2020. (Rhan 2 i ddilyn)

STOLPIA - STEFFAN AB OWAIN

YR ENW BLAENAU FFESTINIOG

Er bod yr enw Ffestiniog -yn ei ffurfiau gwahanol - yn dyddio yn ôl i'r Oesoedd Canol, ac o bosib, mor gynnar a'r Cyfnod Cristnogaeth Cynnar, sef oddeutu 600 O.C, nid ymddangosodd yr enw Blaenau Ffestiniog tan gyfnod llawer diweddarach. Yn ôl yr arbenigwyr ystyr yr enw 'Ffestiniog' yw tiriogaeth gŵr o'r enw Ffestin, a dyna a geir yn yr enw Brycheiniog, sef teyrnas Brychan. Ystyr yr enw 'Blaenau' yw pen pellaf cymoedd, neu ran uchaf broydd, a cheir amryw o enghreifftiau trwy Gymru, megis Blaenau Caeo, sir Gaerfyrddin, Blaenau Cellan, sir Aberteifi, Blaenau Gwent, sir Fynwy, Blaenau Mawr, sir Frycheiniog, ac yn nes adref, Blaenau Dolwyddelan yn arwain at Gwm Fynhadog.

A throi ein sylw at y pwnc eto, bu dadl rai blynyddoedd yn ôl rhwng rhyw ddau neu dri o academyddion ynghylch yr enw Blaenau Ffestiniog ar ein tref, neu o leiaf ar ran o'r ardal boblog. Honai un nad oedd yr enw yn bodoli o gwbl cyn yr 1870au, tra mynnai un arall mai o'r 1860au y defnyddiwyd yr enw gyntaf, ac ni fedrai weld ei fod dim hŷn na'r degawd hwn. Ag ystyried nad oedd tref o faint yma tan oddeutu yr 1880au -1890au, a thueddid ei galw yn Fourcrosses gan lawer, tybed a oes gwirionedd yn yr hyn a dybid gynt gan y gwŷr dysgedig hyn. Wel, gyda thechnoleg fodern, a modd i chwilota ar y gwahanol wefannau sydd ar y rhyngryd, gallwn ganfod nad oedd eu damcaniaeth yn gywir. Mewn gwirionedd gellir canfod un enghraifft o'r enw enw Blaenau Ffestiniog (sic) mewn adroddiad ym mhapur newydd *Carnarvon and Denbigh Herald*, mor bell yn ôl a'r 20fed o Chwefror, 1836.

Gyda llaw, adroddiad ydyw am y Mudiad Dirwest yn yr ardal ac yn nodi y bydd cyfarfod yng Nghapel Bethania (A) i drafod y gymdeithas newydd. Mae hi'n werth ichi gael golwg ar rai o'r gwŷr blaenllaw ynghylch y mudiad, megis Samuel Holland, perchennog un o chwareli'r Blaenau, wrth gwrs, y Parchedig Thomas Davies, gweinidog gyda'r Annibynwyr, Robert Griffith, Plas yn Dre, David Williams, Coed y Bleiddiau, Robert Owen, Neuadd Ddu, William Owen, Plas Isaf, a sawl un arall. Nodyn o ddiddordeb i rai ohonoch, y mae Plas yn Dre wedi ei gladdu o dan domen Chwalel Diffwys ers blynyddoedd, ac mae tyddyn Coed y Bleiddiau yn furddun gerllaw'r Rheilffordd Gul, sef rhwng Gorsaf Tan-y-Bwlch a Phlasdy'r Dduallt.

Cyn cloi, nodyn arall parthed yr enw cywir y tro hwn. Yng nghylchgrawn y Dysgedydd Crefyddol am 1 Gorffennaf, 1836 ceir y canlynol am yr un pwnc a'r uchod:

Y mae brodorion Blaenau Ffestiniog, ac ereill, wedi sefydlu Cymdeithas Gymedroldeb (mewn diodydd) yn eu plith, i'r dyben o fod yn wrthglawdd er ataliad y llifeiriaint arswydol o feddwod sydd yn gorlenwi y broydd. Yr hyn a achosodd y sefydliad ardderchawg yma oedd, i amrai o'r brodorion crybwylledig dosturio yn achos dynion ieuainc y gweithfeydd, y cyfryw ag sydd yn cael eu hudo i wario eu harian, gwario eu hamser, a gwanhau y synhwyrau, ayyb.

Gwelwn felly bod yr enw Blaenau Ffestiniog mewn defnydd, o leiaf erbyn, y flwyddyn 1836, er nad oedd tref, yng ngwir ystyr y gair, wedi ei sefydlu yn yr ardal. Cofier, rhyw ychydig tros 3,000 oedd poblogaeth y plwyf cyfan yn 1841 a phryd hynny yr oedd pentre'r Llan yn tipyn mwy na'r 'Blaenau'. Byddai'n ddiddorol clywed a oes un ohonoch chi wedi dod ar draws enghraifft o'r enw Blaenau F(f)estiniog wedi ei nodi cyn y flwyddyn 1836? Y mae hi'n bur debyg ei fod yn bodoli cyn 1836. Beth bynnag, hoffwn orffen gyda rhywbeth ysgafnach a chynnwys un o hen gardiau post Valentine gyda'r enw 'Blaenau Ffestiniog' (sic) arno ac un yn dyddio o tua 1918. Gobeithio y byddem ninnau, pob un ohonom, yn gwenu fel yntau ar ôl i'r pla ofnadwy hwn gilio o'r wlad a'r holl fyd cyfan.

Steffan ab Owain

'STINIOG O'R WASG ERSTALWM: Y blynyddoedd cynharaf

Fel darllenwyr papur bro 'Stiniog a'r cylch, tybed a fyddai gennych unrhyw syniad o pryd y gwelwyd cyfeiriad at y plwyf yn y wasg am y tro cyntaf? Dyma geisio rhoi ychydig oleuni ar y mater ichi, gan obeithio y byddwch yn mwya'u rhifyn digidol hwn o *Lafar Bro*. Dim ond cip o'r cyfnod cynhara' sydd yma, cofiwch!

Er bod sôn am Ffestiniog, neu -yn ôl y drefn Seisnig ddyddiau fu-*Ffestiniog*, mewn ysgrifen ar sawl dogfen mewn archifdai a'r Llyfrgell Genedlaethol, yn mynd yn ôl ganrifoedd, tybed pa mor gynnar y gellir gweld yr enw mewn print newyddiadurol?

Er mawr syndod, roedd cyfeiriad at y lle mewn papurau newyddion hynafol Lloegr yn bod yn y 18fed ganrif, a'r cyntaf i mi ei weld yw'r un o'r *London Gazette* 13 Rhagfyr 1785, pryd y cyhoeddwyd y cyntaf o dair hysbyseb am werthiant tiroedd yn y plwyf. Rhan o stâd William Wynne, y Wern, oedd y rhain, un ym meddiant y tenant, Pierce Owen, Ellin Roberts ac Owen Jones. Roedd rhan arall ar werth hefyd, yn nhenantiaeth William Jones ac Owen Pritchard a'i bartneriaid. Ymddangosodd yr hysbyseb ddwywaith wedyn yn y *Gazette*, yn Chwefror a Mai y flwyddyn ddilynol. Ond roedd y cyfeiriad nesaf am *Ffestiniog* yn llawer mwy diddorol, wrth weld yn rhifyn 22 Ionawr 1814 o'r papur restrau o enwau carcharorion yng ngharchardai Prydain yn cael eu harddangos i'r darllenwyr. Yn eu mysg cyfeiriwyd at ddau ddyn o 'Stiniog a oedd yn garcharorion yng ngharchar Dolgellau. William Price, porthmon, o'r Pengwern, a chyntaf o Garthgwyn, Maentwrog, oedd un ohonynt. Yr ail yn y jêl gyda chysylltiad â'n plwyf oedd y ffermwr Edmund Lloyd, a hwnnw gynt o'r Pengwern hefyd. Ni ddatgelir beth oedd troseddau'r ddau, na gair am hyd eu sentans. Cafwyd nifer fawr o adroddiadau tebyg gyda chyfeiriadau at 'Stiniog ar dudalennau'r *Gazette* dros y blynyddoedd, gyda llawer ohonynt yn ymwneud â methdaliadau ymysg y brodorion.

Cyfeiriad cynnar arall a welir o enw ein plwyf mewn papur newyddion o'r 19 ganrif yw'r un Saesneg yn y *Bristol Mercury*, ar 15 Mawrth 1819, oedd yn sôn am ffordd newydd oedd yn cael ei hagor rhwng Dolgellau a Than-y-bwlch. A'r cyfeiriad at *Ffestiniog*? Ni fyddai'n rhaid i'r teithiwr ddilyn y ffordd ddrwg, serth o'r Bala yma, (sef dros y Migneint) wedi agor y ffordd newydd meddai'r gohebydd! Hyd nes dyfodiad y newyddiaduron Cymraeg, fel Baner Cymry yn yr 1850au, yn Saesneg y byddai'r cyfeiriadau at 'Stiniog i gyd.

Cafwyd rhestr o'r crachach oedd â hawl i gael eu henwau ar y *Game List*, i saethu grugieir a ffesantod, am wn i, yn y *North Wales Chronicle* ar 18 Medi 1828, ac yn eu mysg un William Simpson, *esq.*, Ffestiniog, yn y sillafiad Cymraeg, er syndod. Yn yr un papur, ychydig wythnosau'n ddiweddarach, ar 6 Tachwedd 1828, gwelir y cofnod newyddiadurol cyntaf o lwyth o lechi'n cael eu cario ar long o Gaernarfon i Lerpwl, neu fel dywed yr adroddiad "*Ffestiniog, Jones, for Liverpool*".

Roedd colofnau Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau yn bodoli ar ddechrau'r 19 ganrif, a diddorol oedd ceisio olrhain cofnodion o'r colofnau hynny yn ymwneud â 'Stiniog. Wrth reswm, dim ond enwau cysylltiadau'r rhai a fedrai fforddio talu am yr wybodaeth yng ngholofnau'r BMD (*Births, Marriages & Deaths*) a geir yn y dyddiau cynnar hynny. Y briodas gynharaf a welir o'r hon yw'r un yn y *Liverpool Mercury* ar y 5 o Fehefin 1829, am briodas Elizabeth, merch T.Casson, Blaen-y-ddôl, gyda Benjamin Smith o Stafford. Pedair blynedd yn ddiweddarach cawn hanes cyntaf am farwolaeth yn BMD y *North Wales Chronicle* (NWC) 15 Ionawr 1833. Mae hefyd yn gofnod o haint oedd mor farwol yn y plwyf yr adeg honno, y frech wen. Dyma ddywed y pwt hynod drist hwnnw. *On the 2nd inst, John Pierce, Ffestiniog, and on the 3rd, his son Morris Jones, both of the smallpox, one aged 53, and the other 24.*

Cofnodir hefyd hanes nifer o farwolaethau eraill, trwy amrywiol ddamweiniau, ac ambell un yn ysgytwol ei naw. "*Fatal Mistake*" oedd pennawd adroddiad am hanes marwolaeth Eleanor Jones, oedd yn byw yn y Pengwern Arms, yr hon a fu farw trwy gamgymeryd tabledi oedd yn cynnwys arsenic i ladd llygod mawr, yn lle ei thabledi meddygol arferol. Cofnodwyd hynny yn y NWC ar 3 Gorffennaf 1832.

VPW





Ynghanol y sefyllfa ddyrys sydd ohoni, a phawb ohonom dan orchymyn i ynysu'n hunain rhag y haint sy'n melltithio'n byd, dyma fynd ati i gyflwyno ychydig sylwadau ar gyfer y golofn.

Diolch i CLIFF O'R BONTNEWYDD, GWENLLIAN O'R WYDDGRUG ac ARTHUR O FACHEN, cafwyd limrigau gwerth chweil mewn ymateb i dasg Mawrth. Yr adeg honno, y dinistr a ddaeth yn sgil Stormydd 'Jorge', 'Dennis' a 'Ciara' achosodd ofid i lawer yn ein gwlad. Gofynnwyd i'r rhigymwyr orffen y cwpled agoriadol:

Rôl 'Jorge' a 'Dennis' a 'Ciara'
Gobeithio yn wir y daw hindda ...

Dyma ddwy ymgais deilwng iawn gan CLIFF:

*Y tywydd mor gymysg -
Peth eira a chenllysg,
Pa hyd y mae hyn oll am bara?*

[Cwestiwn da, er i'r hin fod yn addawol iawn yn ystod y dyddiau dwythal!]

*Ar ôl yr holl gwyno
Daw'r haul poeth i'n rhostio,
Dirywio mae'r tywydd ddim gwella!*

[Gwir bob gair!]

Llwyddodd GWENLLIAN i ganfod odlau cyrch pwrpasol yn ei dwy ymgais ganmoladwy hithau:

Rôl 'Jorge' a 'Dennis' a 'Ciara'
Gobeithio yn wir y daw hindda ...

*Ceir gwanwyn llawn swyn
A ffyniant di-gwyn
Ac w'n bach yn prancio'n y borfa.*

*Âr gwanwyn mor ir
A chryf yn y tir,
Anghofir am stormydd y gaea'.*

[Gwneir gobeithio ... er bod yr aflwydd arall yma wedi'n cyrraedd!]

Er gwaetha'r cyfyngiadau presennol, mae ARTHUR am ein denu allan i'r tywydd braf:

Rôl 'Jorge' a 'Dennis' a 'Ciara'
Gobeithio yn wir y daw hindda ...

*I'n denu o'r tŷ
Mâs i'r heulwen fry,
Mae blodau y maes ar eu gora.*

[Yn sicr, mae'r gwanwyn tymhorol ar ei ffordd!]

*Ewch allan am dro -
Darganfod y fro,
Anghofiwch am fydd y gwleidydda!*

[Am syniad gwreiddiol, da].

Gan mai rhifyn digidol o *Llafar Bro* a ddarperir gennym dros gyfnod amhenodol COVID-19, ni osodaf dasg ar gyfer y mis. Hyderaf yn fawr y caf wneud hynny'n fuan!

Fe welodd ein byd heintiau marwol dros y canrifoedd. Ychydig dros ganrif yn ôl, cyrhaeddodd y 'Ffliw Sbaeneg' ... y cledf heintus hwnnw a laddodd rhwng 50 miliwn a 100 miliwn o bobl y byd. Mae'r haint presennol hefyd yn cipio bywydau, ac wedi achosi anhrefn yn ein gwlad nas gwelwyd ei debyg gan neb ohonom. Ers rhai wythnosau, clywsom am weithgarwch ar ôl gweithgarwch yn cael ei ohirio. Mae'r rhestr yn faith. Gwyddom na fydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych ddiwedd Mai ac na fydd Sioe Amaethyddol yng Nghorffennaf. Tybed a gynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron ddechrau Awst?

Ym 1914... y flwyddyn y torrodd y Rhyfel Mawr allan, roedd yr Eisteddfod Genedlaethol i fod i gael ei chynnal ym Mangor. Oherwydd iddi gael ei gohirio, beirniadwyd y cynnyrch llenyddol a luniwyd ar ei chyfer ym 1915. Fel ym Mhrifwyl Wrecsam dair blynedd ynghynt, cipiwyd y ddwy brif wobr ... y Gadair a'r Goron ... gan y bardd, yr ysgrifwr, yr ysgolhaig a'r athro prifysgol genedigol o Ryd-ddu, THOMAS HERBERT PARRY-WILLIAMS [1887-1975]. 'ERYRI' oedd testun Awdl y Gadair, ac mewn cystadleuaeth 'siomedig' yn ôl un o'r beirniaid, Syr John Morris-Jones, cadeiriwyd gwaith un a ddewisodd '*Rhuddwyn Llwyd*' yn ffug-enw. Teimlai cyd-feirniaid Morris-Jones, T. Gwynn Jones a J. J. Williams yn wahanol. Yn ôl Gwynn Jones, cafwyd '*awdl gampus*' a nododd Williams fod '*ei hawdur yn well meddylwr, bardd ac ieithydd na'r un o'i gyd-gystadleuwyr.*' Galwodd y bardd ei gerdd yn '*awdl gromatig*', yn ymwneud â lliwiau ... y lliwiau '*llwyd*', '*rhudd*' a '*gwyn*.' Fe'i canwyd yn gyfangwbl ar fesur '*hir a thoddaid*'.

Lliw '*llwyd*' yr awdl yw llwydni'r niwl dros Eryri, a '*llwydni'r oesau*' y mae'r bardd yn breuddwydio amdany'n nhw. Y lliw '*rhudd*' neu '*goch*' ydy machlud Eryri sy'n adlewyrchu cyflwr mewnol y bardd. '*Gwyn*' ydy lliw glendid a diweirdeb, a lliw gwirionedd.

Fel un a fagwyd ynghanol mynyddoedd Eryri, roedd yr hiraeth am fro ei febyd yn dwymyn yng ngwaed Parry-Williams. Mae'r awdl yn cloi gyda phennill sy'n tyngu llw o ffyddlondeb i'r darn hwnnw o dir. Er i mi ddwyn hwn i'ch sylw'n y golofn flwyddyn yn ôl, credaf ei fod yn werth i'w ail-adrodd:

*Â thwym ddwyfron y gwneuthum ddiolfryd
I garu fy mhau fel gwyrff fy mywyd;
Anwylo gwylltineb tir fy mebyd,
Ei lwyn a'i afon a'i lynnau hefyd.
Ac yn nyfnder ei weryd gwn y caf
Ei gusan olaf megis anwylyd.'*

Gyda'r llwybrau i fynyddoedd Eryri bellach ar gau i ni'r bobl leol ac i dwristiaid am gyfnod amhenodol, boed inni hiraethu a rhamantu fel 'y cawr mawr bychan o gorffolaeth' am fangre mor odidog.

Nodais yng ngholofn Mawrth mod i wedi bod yn chwilio'r gwefannau am hanes teulu am fy

nghyndeidiau. Credaf y gall Rhydian, golygydd Mawrth, ymfalchio'n y ffaith ei fod â chysylltiad â '*bardd dwbwl-dwbwl*' Eisteddfodau Cenedlaethol 1912 a 1915. Roedd Annie Parry-Williams [1859-1925], Tŷ'r Ysgol, Rhyd-ddu, mam '*Thomas Herbert*' yn gyfnither gyntaf i'w hen, hen daid, Richard Humphrey Morris [1846-1925], Parc, Bontuchel, Dyffryn Clwyd. Brawd i Annie oedd y Parchedig Richard Roberts Morris, Betws Garmon [1852-1935] ... a fu'n weinidog yn Nhavernacl y Methodistiaid Calfniaidd, Blaenau Ffestiniog am gyfnod maith [1893-1924].

Ef ydy awdur yr emyn mawr hwnnw:

*'Ysbryd byw y deffroadau,
Disgyn yn dy nerth i lawr,
Rhwyga'r awyr â'th daranau,
Crea'r cyffroadau mawr;
Chwŷth drachefn y gwyntoedd cryfion
Ddeffry'r meirw yn y glyn,
Dyro anadliadau bywyd
Yn y lladdedigion hyn.'*

'*Gweddi am yr Ysbryd Glân*' ydy testun emyn R. R. Morris. Ein gweddi ninnau yn ystod y dyddiau dyrys yma ydy am i '*anadliadau bywyd*' orchfygu'r haint marwol sy'n gymaint pla'n ein byd. Cadwch yn ddiogel! IM

COPAON



Llefydd sanctaidd yw'r rhain;
llwyfannau hunaniaeth, eu hawelon
yn ffrwd ffraeth
rhwng pulpudau'r pedwar gwynt.

Yma mi weli dy fro yn troi'n wlad,
a'th wlad yn troi yn fyd,
ac mi glywi dy lais yn morio
dros donnau diddiwedd o dir
a dychwelyd, yn chwedlau i gyd.

Dewi Prysor

banc bwyd blaenau food for ffestiniog



Diweddariad Feirws: Mae'r banc bwyd ar agor rwan bob dydd (Llun - Gwener), rhwng 2yp a 3yp.

- Bydd mesurau newydd mewn lle i amddiffyn y gwirfoddolwyr, a bydd rhaid i bob un ddilyn rhain.
- Dim ond un person o'r teulu i ddod i nôl pecyn; dim plant os yn bosib.
- Os ydych yn hunan ynysu ac angen danfoniad i'r tŷ, cysylltwch ar 07435 290553

Ar y Moelwyn



Llyn Pryfed, Traws, gan Keith O'Brien.

Mae dau ddeg pedwar llyn i'w gweld yn sgleinio yng ngolau'r dydd, ac eraill sydd yn swatio'n swil mewn cymoedd cyfrin cudd.

Dwi'n edrych dros Eryri, y Rhinogydd a Phen Llŷn, does unlle gwell na'r Moelwyn Mawr i weld fy ngwlad fy hun.

Llwyfan fy llumanau,
Lle mae'r gorwel yn grwn,
Ble dwi'n gweld fy mro yn troi yn wlad,
A fy lle yn y byd hwn.

Dwi'n gweld yr haul yn felyn
ar ysgwydd Moel yr Hydd,
a chysgodion y cymylau'n
carlamu dros ei rudd.

Dwi'n gweld y Cnicht a'r Wyddfa
fel gogoniant yn fy llaw,
ac os na wela'r Moelwyn Bach,
mae hi'n niwl neu'n bwrw glaw.

Mi af fyny yn yr eira
Neu wynt a glaw, neu hindda,
Pan fo poenau'r dydd yn f'erlyn
Dwi'n dianc i ben y Moelwyn.

Os af fyny drwy Gwmorthin,
chwarel Rhosydd, heibio'r felin,
neu drwy chwarel Wrysgan
neu dros Graigysgafn o fwllch Stwlan,
dwi'n pasio hen lefelau
sy'n gyrru trydan trwy fy ngwaed,
yn edmygu hen frawdoliaeth
yr agorydd dan fy nhraed.

Os dio'n gwisgo'i gap neu beidio
Dwi'n siwr o alw heibio,
Di'm yn cymryd llawer mwy nag awr
I fynd i ben y Moelwyn Mawr.

Sŵn tonnau ar yr awyr,
daw'r gigfran ar ei hynt
gan glwician ei chyfarchion
cyn plymio i nyddu'r gwynt;
a'r goesgoch hy' sy'n sgrechian
o furiau ei theyrnas hi;
y rhain sydd yn fy atgoffa
mai gwestai ydw i.

Mangre fy mreuddwydion
Rhwing y mawn a'r awyr lân,
Lle dwi'n gweld nad oes 'na nunlla'n bell
Fel hed y frân.

Af yno i wasgaru
pryderon diflas byd
i'r awel a'r Iwerydd,
dros y Flaenllym yn fflyd;
ac wedi cael eu gwared,
yn rhubanau ar y gwynt,
daw diarhebion bywyd
i wneud i 'nghalon guro'n gynt.

Ac yng nghwmni'r hen frân goesgoch
A'r gigfran ddu
Mi arhosaf ar y Moelwyn
Efo'r awen fry.

Mae gennyf win i'w rannu
efo Gwyn ap Nudd a'i deulu,
wrth ddawnsio efo'r lleuad braf
er mwyn croesawu Hirddydd Háf.
A phan ddaw'r tân dros ymyl tir
i liwio'r wlad â'i fysedd hir,
i ddal y wawr ar Droad y Rhod,
y Moelwyn Mawr yw'r lle i fod.

Ac yng nghwmni'r goesgoch bigog
A'r gigfran ddu
Mi orweddaf ar y Moelwyn
Efo'r awen fry.

Prysor

Antur Stiniog

Elfen bwysig o'n gwaith fel cwmni yw datblygu prosiectau sydd yn gwarchod ein hamgylchedd a'n diwylliant trwy greu diwydiant hyfyw a chynaliadwy yn lleol.

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn holl bwysig i ni, ac rydym yn y broses o wireddu cynlluniau sydd yn cyfrannu tuag at lleihau ôl-troed carbon y cwmni drwy blannu coed ar lethrau'r Cribau lle mae'r Parc Beicio. A thrwy gyd-weithrediad gyda'r Dref Werdd dros yr wythnosau diwethaf mae 'na gannoedd o goed wedi eu plannu ar yr safle yn barod. Y gobaith yw adeiladu ar hyn. Mae Antur Stiniog wrthi'n datblygu Clwb Beics i blant a phobl ifanc (7-16 oed), gyda'r bwriad o annog mwy o drigolion lleol i gymryd rhan yn y maes beicio mynydd lawr-allt, ac i agor yr drws i fwy fwynhau'r llwybrau sydd yma yn lleol.

Mi fydd y Clwb yma yn rhoi'r cyfle i unigolion ddatblygu sgiliau beicio technegol o fewn eu gallu, a chynyddu fel mae'r unigolyn yn barod. Yr hyn 'da ni eisiau gwneud yn Antur ydi cynnig beics, offer diogelwch a mentora proffesiynol i blant a phobl ifanc.

Y gobaith hirdymor yw bwydo'r goreuon i mewn i Dîm Rasio Proffesiynol Antur Stiniog, sydd yn cystadlu mewn digwyddiadau ar draws y byd. Mae hyn yn gyfle anghygoel- ac efallai gallwn obeithio un diwrnod fydd Pencampwr y Byd yn gwsygo crys rasio Antur Stiniog!

Mi fydd y Clwb hefyd yn plethu elfen o waith amgylcheddol i'w rhaglen blynyddol, ee drwy wneud gwaith clirio a phlannu ger y 'safle naid' ym Mharc Beicio Antur Stiniog. Leah Buckley.



Cyngor Tref Ffestiniog

Wel dyma ddeufis wnai fyth anghofio! Yn cychwyn fy swydd newydd fel Clerc i Gyngor Tref Ffestiniog, yn dilyn ymddeoliad y cyn-ghlerc Mrs Ann Coxon ym mis Chwefror. Ac yn gweld sefyllfa lleol yn newid mewn wythnos, a ffocws y cynghorwyr tref yn symud o gynlluniau hamddenol ar gyfer y flwyddyn i geisio gwarchod ein trigolion mwyaf bregus, a hynny mewn cyfnod brys.

O ran trefniadau'r Cyngor Tref am yr misoedd nesaf, mi fydd y swyddfa ei hun wedi cau. Fodd bynnag, rwyf innau a'r Dirprwy Glerc, Eirian Barkess, yn gweithio o adra. Mae llinell ffôn y Cyngor, 01766 832398 hefyd wedi'i ddargyfeirio i'n ffonau symudol felly mae'n bosib i chi barhau i gysylltu efo ni o Ddydd Llun i Ddydd Gwener rhwng 9.30yb a 2.30yp.

Gallwch hefyd gysylltu â ni drwy e-bostio clerc@cyngortrefffestiniog.cymru neu dirprwyglerc@cyngortrefffestiniog.cymru. Neu gyrrwch neges ar ein tudalen Gweplyfr/Facebook "Cyngor Tref Ffestiniog Town Council".

Yn dilyn cyfarfod brys ar yr 19eg o Fawrth, cytuniwyd y bydd rhaid gohirio cyfarfodydd misol y Cyngor Tref er mwyn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Llywodraeth. Yn amlwg, mae hyn yn golygu na fydd prosiectau newydd yn cael eu cytuno'n fuan, ond mae'n rhoi cyfle i'r cynghorwyr tref, a ninnau fel staff ymateb i'r her newydd o'n blaenau.

Yn barod, rydym wedi gweld grŵp gwirfoddol cymunedol newydd yn cael ei greu, gyda dros 50 o wirfoddolwyr eisoes wedi cysylltu i helpu trigolion lleol, boed hynny ar gyfer danfon siopa neu gadw cwmni dros y ffôn i'r rhai wedi ynysu.

Fel Cyngor Tref, rydym yn ceisio cefnogi'r holl grwpiau yn yr ardal sydd i gyd yn gwneud ymdrechion gwych. Ac rydym yn aros i glywed gan Lywodraeth Cymru os fydd disgwyliad ehangach ar y Cyngor Tref dros y misoedd nesaf, wrth i'r sefyllfa waethygu.

O ran ein gwasanaethau arferol, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar yr 23ain o Fawrth, bu rhaid i ni gau ein 9 parc chwarae er mwyn diogelu ein plant. Fodd bynnag, rydym yn parhau i sicrhau fod y llochesi bws, hysbysfwrdd a'r biniau cyhoeddus yn cael eu glanhau yn reolaidd.

Mae'r sefyllfa yn newid yn ddyddiol, ac rydym yn ceisio manteisio ar ein tudalen gweplyfr er mwyn rhannu'r newyddion / cyhoeddiadau lleol. Os oes gennych chi gyhoeddiad, yna cysylltwch gyda ni a byddem yn hapus i'w rannu.

Mae'r Cynghorwyr Tref yn ymchwilio i'r problemau sydd am godi yn lleol yn yr ardal, ac rydym eisoes yn cydweithio efo nifer o grwpiau / asiantaethau lleol yn yr ardal er mwyn sicrhau nad yw trigolion Bro Ffestiniog yn dioddef yn ddi-angen yma.

Mae hi'n amser pryderus iawn i ni yma ym Mro Ffestiniog, ond does nunlle gwell na chymuned Ffestiniog i gamu i fyny a helpu ein gilydd mewn cyfnod o angen. Rydym ni gyd fel staff a Chynghorwyr Tref Ffestiniog yn falch iawn o fod yn rhan o'r gymuned hwnnw.



Zoe Pritchard



Cornel y Plant

Printiwch hwn i'r plantos gael lliwio neu baentio. Awgrymwch hefyd eu bod yn sgwennu stori i fynd efo'r llun. www.amam.cymru/lleucugwenllian

"Gyrrwch eich lluniau a'ch straeon atom ac mi rown ni nhw ar ein gwefan!"



Chwilio am gyfle i gymdeithasu a chadw'n brysur?

Mae llwyddiant Yr Ysgwrn dros y tair blynedd diwethaf yn ganlyniad o dipyn o agweddau gwahanol ond yn fwy na dim byd arall, y bobl sydd yn ymwneud â'r safle sydd yn rhoi'r profiad bythgofiadwy i ymwelwyr. Y bobl sy'n ymroi eu hamser a'u hangerdd i ddweud stori oesol Hedd Wyn a theulu'r Ysgwrn. Mae stori'r Gadair Ddu a chenchedlaeth goll y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael ei gyflwyno i bobl ledled Cymru, Prydain a gweddill y byd erbyn hyn gan deulu bach o staff a gwirfoddolwyr brwd a hwyliog. Byddai'n braf iawn denu mwy o wirfoddolwyr i ymuno a'n tîm bach ni.

Gall diwrnod yn Yr Ysgwrn fod yn un prysur, yn enwedig ar ddyddiau braf o haf. Cymrwn ni bora lle mae 50 o bobl wedi trefnu i ddod am banded, chacen a thaith o gwmpas y tŷ ac ar yr un pryd mae clwb crefft i blant ymlaen. Mewn lle mor fach byddai rhywun yn disgwyl i dîm Yr Ysgwrn deimlo bach o straeon

i wneud yn siŵr bod bob dim yn barod, a'r ymwelwyr yn cyrraedd lle maen nhw i fod ar yr amser iawn. Ond does dim straeon, dim ond chwerthin, bwrlwm a phrysurdeb sydd yn gwneud i'r lle deimlo'n fyw. Ac mae'r ymwelwyr yn teimlo hynny hefyd. A phan fydd pawb wedi mynd, a'r peiriant golchi llestri yn llawn, byddem yn eistedd gyda phaned a rhannu straeon am y math o gymeriadau ddoth trwy'r drws yn ystod y dydd. Rydym yn wych am gymdeithasu, nid yn unig yn ystod oriau agor Yr Ysgwrn ond wrth fynd am fwyd gyda'r nos neu ar drip yn ystod yr haf. Rydym yn edrych am fwy o bobl wych i ymuno â ni, at pan fyddwn yn medru agor eto.

Rydym yn chwilio am bobl i sgwrsio gydag ymwelwyr, cynnal teithiau tywys o gwmpas yr hen ffermdy a gweithio yn y caffi sy'n cynnig paned a chacen i bobl. Does dim disgwyl i chi fod wedi darllen llyfrau lu am Hedd Wyn, y Rhyfel Mawr na hanes cymdeithasol yr 20fed Ganrif. Byddwn yn rhoi hyfforddiant i chi ar y 'stori', ond mae pob un ohonom yn adrodd agwedd gwahanol o'r stori eiconig, yn ddibynol ar ein diddordebau. Bydd unrhyw un sydd yn gweithio yn y gornel goffi a'r dderbynfa yn croesawu ymwelwyr, yn cyflwyno'r safle a gwerthu tocynnau, te, coffi a chacen. Eto, does dim angen profiad, bydd hyfforddiant ar gael, dim ond eich bod chi'n hoff o sgwrsio gyda'r cyhoedd. Rydym yn wych am gymdeithasu, nid yn unig yn ystod oriau agor Yr Ysgwrn ond wrth fynd am fwyd gyda'r nos neu ar drip yn ystod yr haf. Wir i chi mae hi'n lot o hwyl a does dim disgwyl unrhyw ymrwymiad penodol, rydym yn hyblyg iawn ar faint o amser hoffech chi wirfoddoli yma. Os hoffech chi sgwrs dros y ffôn neu e-bost cysylltwch ar 01766 772508 neu yr.ysgwrn@eryri.llyw.cymru.

Jessica M. John



YES CYMRU BRO FFESTINIOG

Bu'n gyfnod prysur eto i'r gangen leol o ymgyrch annibyniaeth Cymru, cyn i'r feirws ein harafu. Mi fu'r aelodau'n 'gwneud y pethau bychain' ar Ddydd Gŵyl Dewi, efo rhai yn dosbarthu taflenni a chynnal stondin yn y Clwb Rygbi, yn ystod ymgais record y byd gan siop elusen leol, tra oedd criw da wedi cydweithio efo aelodau o gangen Llanrwst i chwifio baneri o ben Castell Dolwyddelan.

Bu canghennau eraill yn 'cipio'r cestyll' yng Nghaernarfon a Chonwy hefyd, a'r bwriad yn wreiddiol oedd cyfrannu at ymgyrch #MisAnnibyniaeth trwy fis Mawrth, i dynnu sylw at y rali yn Wrecsam. Wrth gwrs, erbyn hyn mae'r rali wedi ei gohirio fel bod dim arall.

Pan fydd pethau'n gwella, y gobaith ydi fod y gangen yn cynnal gŵyl annibyniaeth yn lleol. Fel mae pethau ar hyn o bryd, bydd raid aros i weld be ddaw. Mae'r aelodau'n dal i gredu, a bu rhai yn arddangos baneri o'u cartrefi ar y 30ain o Fawrth i ddangos ein bod 'yma o hyd', ac mi fydd prysurdeb mawr ar y cyfryngau cymdeithasol rhwng 1 a 2 ar bnawn Sadwrn y 18fed o Ebrill i gadw'r fflam ynghyn.



(Llun- PW)

Llygad Newydd.....




Ar ôl paldaruo am flynyddoedd am ddianc i Enlli ar fy mhen fy hun, efo dim byd ond llyfrau a hen sêr radio, er mwyn cael llonydd i ddarllen a gwrando, mae'r cyfyngu ar symudiadau pawb rwan yn rhoi rhyw fath o gyfle i wneud hynny adra.

Roedd "darllen mwy" ar y rhestr o addunedau gen i eto eleni. Dyma'r tro cynta' -dwi'n meddwl- imi fedru gwreiddu addewid dydd calan. Er, mae'n ddigon buan i mi fethu eto...

Yn ystod Mawrth, mi fues i'n darllen llyfrau hen a newydd, a gwrando mwy ar y radio er mwyn osgoi newyddion drwg y teledu. Dwi ddim yn adolygydd o bell ffordd, ond dyma wib-drafod ambell beth oedd o ddi-ddordeb.

Anaml fydda' i'n troi at ffuglen, ond mi ges i fy nhemtio gan nofel ddiweddaraf Llywyd Owen, 'Iaith y Nefoedd' (Y Lolfa 2019) am iddo gydweithio efo grŵp Yr Ods, oedd yn rhyddhau albwm o ganeuon am yr un stori, yr un pryd. Stori apocalytaidd lle mae'r Cymry Cymraeg yn gorfod cuddio'u hunaniaeth ddegawd ar ôl 'Y Bleidlais' yn 2016. Stori iasol am gymdeithas yn mynd i'r gwellt, a bywd yn prin hau... brexit a corona yn canu cloch? Peidiwch a son! Syniad ardderchog am stori, ac mi ddarllenais yn frwdfrydig ac awchu iddi fod yn nofel fwy swmpus, er mwyn llenwi ambell ofod yn y manylion. Mae fy oed yn caniatâu i mi fod 'chydig o grinc a phlisman iaith, ac os oes yna gwyn am y nofel, dwi'n meddwl mae'r gwaith golygu ydi'r gwendid mwyaf, o ran y manylion coll, ond hefyd trwy beidio a gofyn i'r awdur ail-ystyried rhai o'r idiomaau Saesneg sy'n baglu llif y darllen, fel y "rhwystrredigaeth ar ei wyneb wedi cael eu hailosod gan rywbeth llawer gwaeth." Y gair 'replaced' oedd yn ei ben o am wn i. Neu "stoc lleihaol o foddion"... cyfieithiad gwael o 'diminishing stock' oedd hwnna fyswn i'n tybio? Ta waeth, mae'n nofel sy'n werth ei darllen. Ewch i'r llyfrgell neu i Siop yr Hen Bost i chwilio am gopi. Mi fydd y rhai sy'n fy nabod yn synnu i glywed fod *Iaith y Nefoedd* wedi gwneud i mi droi at y Beibl! Ond dim ond i edrych be oedd Lefiticws yn ddweud am fwyta pryfed am fod cymeriadau'r nofel yn trafod hynny, a'r naturiaethwr ynof fi yn pendroni pa fath o bryfed sydd yna efo dim ond pedair coes? Dwi dal ddim callach!



Mi es yn ôl i ail-ddarllen hen lyfr ail-law sydd acw wedyn, ar ôl sgwrs efo Keith O'Brien lle cyfeiriodd o at gastiau *Moi Plas* yn y Rhedegydd yn y 1950au cynnar. Bu'r golygydd, John Ellis Williams a Moi yn sgwennu bob math o straeon ffug yng ngholofnau'r papur wythnosol am bentref dychmygol Llanfrangoch, er mawr dryswch i'r darllenwyr! Un o nifer o hanesion hynod yn llyfr 'Moi Plas' gan JE (Dryw 1969), "Llyfr gan gyfaiill am gyfaiill" yn ôl Merêd yn y rhagair. Difyr iawn; llyfr i godi gwên yn sicr.


Roeddwn yn mynd 'nôl-a-mlaen at lyfr Saesneg trwy'r mis, sef 'Ladders to Heaven' (Mike Shanahan, Unbound 2018). Llyfr am 'hanes cyfrinachol coed ffigys'; llyfr sy'n hawdd iawn i'w ddarllen, yn llawn ffeithiau rhyfeddol am gyd-berthynas anhygoel pob coeden ffigys efo cacynen fach, a rôl allweddol y ffigysen yng ngwe fwyd cannoedd o adar ac anifeiliaid mewn coedwigoedd trofannol, a'i lle hi yn nhraddodiadau a diwylliant pobloedd y byd, ac yn fwy diweddar ei phwysigrwydd yn ystod rhyfel annibyniaeth Kenya, ac fel ffynhonnell fwyd hyd heddiw. Wedi mwynhau hwn yn arw. Ges i fodd i fyw hefyd yn gwyllo rhaglen ddogfen ar yr un testun. Os ydych yn chwilio am dri chwarter awr o ryfeddod a ffotograffiaeth wych, chwiliwch ar you-tube am 'The Queen of Trees' (2005).

Mae'r radio wedi cynnig nifer o raglenni da yn ddiweddar hefyd, a chyfres newydd Radio Cymru *Dros Ginio* wedi plesio'n arw (cyn i'r feirws gymryd monopoli ar y trafodaethau). Yn nyddiau ola'r mis, daeth rhaglen wych Jazz gyda Tomos Williams yn ei hôl, ac mae'r cyfweiliadau ar *Recordiau Rhys Mwyn*, ac Awr Werin Lisa Gwilym yn werth eu clywed bob tro.

Trwy ddamwain y dois i ar draws cyfraniadau'r awdur Jon Gower i gyfres *The Essay* ar Radio 3 yn hwyr un noson, a dilyn wedyn ar Ap Sounds y BBC. Cyfres am ystyr ein mynyddoedd i bobl Cymru. Yn ei iaith huawdl ffraeth, mae ei ddisgrifiad yn cymharu symudiadau bronwen y dŵr i ddefod cicio Dan Biggar yn glasur! Cyfres hyfryd o ysgrifau teyrnged i dirlun, chwedlau a phobl ein cenedl. Efo dim ond un o'r pum pennod yn y gogledd, byddai'n dda cael ail gyfres yn rhoi sylw i'r Moelwynion a'r Rhinogydd.

Cyfeiriodd Gower yn un o'r rhaglenni at gerdd gan Waldo Williams. "Dyma'r mynyddoedd. Ni fedr ond un iaith eu codi A'u rhoi yn eu rhyddid yn erbyn wybren can."

Dyna esgus felly -ar Ddiwrnod Barddoniaeth y Byd, ar y 21ain- i droi at hen gopi carpiog o 'Dail Pren' (Aberystwyth 1957). Mae yna gwpledi a llinellau gan Waldo sy'n berlau. Rhai sy'n adnabyddus iawn, ac yn cael eu dyfynnu'n aml, ond er gwneud fy ngorau glas, dwi'n ei chael hi'n anodd mwynhau unrhyw un o'i gerddi o'i dechrau drwyddi mae gen' i ofn. Nid y fi sydd wedi bodio'r gyfrol yn dwll; fel'n brynys i hi am bunt o'r Hen Bost, ac heb roi fawr o sylw iddi hi ers blynnyddoedd.



CYNEFIN



Nid yw ond rhan o dirlun, rhyw gilcyn bach di-nod, ac er ei holl wendidau, 'fan hyn 'rwy'n mynnu bod; y lle â'r ddawn i swyno dyn, nid unrhyw fro; fy mro fy hun.

Mae'n agos at fy nghalon, yn wir, mae'n werth y byd; a channol yr hen ardal ag angerdd wnaif o hyd; hen ffordd o fyw, a'i phobl wâr a fowldiodd gwrs fy milltir sgwâr.

Fel clwy' dros bob cynefin, daeth newidiadau, do, ond er wynebu creithiau, yr un yw'r annwyl fro: ac wedi pryder ambell waith, mae'n dal i arddel yr hen iaith.

'Does obaith imi symud ymhell o ffiniau'r dre, can's yma mae fy nghalon, can's yma mae fy lle; y lle nad oes ei well i mi, a'r lle sy'n rhan ohonof i.

Vivian Parry Williams.

Mae BroCast yn cyhoeddi cyfres o gerddi ar eu sianel YouTube ar hyn o bryd, dan y pennawd Awen Bro. Mae Cynefin yn un o'r cerddi hynny, a Meredydd Rhisiart yn ei hadrodd. Ewch draw am sbec.

LLAIS TECHNOLEG

Ydych chi'n poeni am y seisnigo yn ein cartrefi wrth i bobl siarad efo *Alexa* a *Siri* a *Google* am hyn, llall, ac arall... ac yn chwilio am rywbeth gwerthfawr i'w wneud tra'n hunan-ynysu?

Trowch at dudalen Common Voice ar wefan yr unig borwr gwe annibynol mawr Mozilla, er mwyn cyfrannu at dechnoleg iaith Gymraeg. Mae angen pobol i ddarllen brawddegau i'w recordio ar y wefan, ac hefyd angen i bobol wrando ar recordiadau gan eraill a'u dilysu.

<https://voice.mozilla.org/cy>



Cysylltiad Dalgylch 'Llafar Bro' ag America - W. ARVON ROBERTS

Mae'n debyg fod nifer ohonoch chi'r darllenwyr yn gyfarwydd â'r sigarennau hynafol 'Woodbine', ond faint tybed a glywodd am ymsefydliad Cymreig yn yr America yn dwyn yr un enw? Roedd ei leoliad 134 o filltiroedd o ddinas Chicago, yn Sir Joe Daviess, yng nghwr gogledd-orllewinol talaith Illinois. Enw blaenorol y sefydliad oedd Elizabeth.

Mor naturiol erioed fu'r duedd i ni'r Cymry, a hynny ers cyfnod ein gorchfygu gan y Sacsoniaid, i ymsefydlu mewn lleoedd coediog, bryniog ac anhygyrch. Felly'r oedd hi yn hanes y Cymry a ddaeth i 'Woodbine.' Aethant dros y gwastadedd eang a breision, gan ddisgyn yn yr ucheldir coediog ... y lle tebycaf i Gymru yn unrhyw fan o'r America yr adeg honno. Roedd y lle'n goediog a gwyllt pan fu iddynt ymsefydlu yno, ac fe fu iddynt adeiladu eu tai yng nghilfachau a cheseiliau'r brynau.

Daeth y Cymry cyntaf yno ym 1843. Gweithient yn galed i dorri a diwreiddio'r coed, di-garegu'r tir a'i wrteithio, nes gwneud ffermydd da, a gostiodd yn ddrud mewn llafur, amser ac arian iddynt. Datblygodd, fodd bynnag, yn ardal amaethyddol hardd.

Adeiladwyd capel Presbyteraidd Cymraeg yn y cwm yno [*Welsh Hollow*] ym 1854. Tua 1876, codwyd capel mwy a gwell. Gelwid hwnnw yn Gapel 'Apple River.' Yn anffodus, dim ond yn achlysurol y clywid pregethu yn Gymraeg yno, ac erbyn 1880-87, Saesneg oedd prif iaith yr Ysgol Sul.

Ym 1892, roedd yn 'Woodbine' tuag ugain o deuluoedd Cymraeg lluosog o fewn cylch o ryw ddeng milltir ... cyfartaledd o 7 ymhob teulu yn gwneud 140 o ddyonion a merched oedd â'r Gymraeg unwaith eto'n cael ei siarad ganddynt.

Ym mlyneddodd cynta'r 1890au, pan oedd y boblogaeth yn 490 (700 heddiw), parodd amgylchiadau i lawer orfod symud i dalaith gyfagos Iowa. Ymosododd afiechyd y 'gripe' ar lawer o'r teuluoedd, nes lleihau'r boblogaeth.

Rhai o blith y Cymry yn 'Woodbine' oedd John Jones, y gof a David J. Williams, 'Hollow' Fawr, a William Roberts a'i briod, gynt o Bwlch Iocyn, Blaenau Ffestiniog. Teulu lluosog a pharchus arall o'r cyffiniau oedd teulu Edmund Parry Lloyd, ail fab Ellin Llwyd o'r Rhyd, Llanfrothen, a fu byw'n agos at gant oed.

Yno hefyd roedd Griffith W. Roberts a'i briod, Beudy Mawr, Tanygrisiau yn ffermio. Roedd ganddynt 12 o blant. Ganwyd Griffith Roberts ar 2 Ionawr 1838, yn fab i William a Mary Roberts, Coed y Bleiddiau, Ffestiniog. Bu farw ar 24 Rhagfyr 1917 yn 79 oed. Bu Ellin Ann [Jones], ei briod, a anwyd ar 10 Awst 1847 farw ar 19 Mehefin 1919, yn 71 oed. Wedi ymfudo ym 1869-70, bu iddynt briodi ar 17 Ebrill 1871. Bu farw'r olaf o'u plant, Alvin Jesse Roberts [1889-1969] yn 'Elizabeth', Illinois.

Mae beddrodau'r teulu i'w gweld ym Mynwent 'Woodbine.' Bu Jane, chwaer Griffith Roberts farw yn Chubut, y Wladfa ar 28 Awst 1894, yn 68 oed. Ei phriod oedd W. Hugh Williams.

Un arall a wnaeth ei gartref yn 'Woodbine' oedd John E. Evans o Lanfihangel y Pennant, masnachwr a gohebydd 'Y Drych' - papur cenedlaethol Cymry America. Bu ei frawd, y Parch. W. M. Evans yn weinidog gyda'r Presbyteriaid Cymraeg yn Ballarat, Awstralia ac yn olygydd 'Yr Awstralydd.' Chwarelwr yn un o chwareli Ffestiniog oedd cyn ymfudo.



SGWÂR GEIRIAU RHIF 1 GAN GERALLT RHUN

Yn y pòs hwn mae pob llythyren y wyddor Gymraeg rywle yn y croesair (ar wahân i Ph)

Ceisiwch weithio allan pa rif sy'n cynrychioli pob llythyren.

Mae tair llythyren wedi eu dadlennu eisoes.

2	17	14	6		2	4	18	14	6	26	1	6
	16				27		2		1		8	
2	6	20	2	3	11		11	26	24	2	6	10
	19				1				3		2	
19	2	6	17	25		23	3	2	21	14	11	10
	26		2		2		2				3	
15	12	14	3		11	16	12	14	11	3	16	21
			14		14	26		26				
11	2	21	9	14	6	8	2		7	3	16	22
	7				16		10		1		27	
13	21	16	11	16	24	10		13	6	2	3	6
	14		1			5					21	
2	11	1	12	3	23		3	16	22	6	1	19
	1		14				16		10		12	
13	12	2	6	14	11	26	23		19	2	26	22

A B C CH D DD E F FF G NG H I L LL M N O P (PH) R
RH S T TH U W Y

1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14
					N				U				
15	16	17	18	19	20	21	22	23	24	25	26	27	28
											I		PH